

A woman with dark skin and short dark hair, wearing a green t-shirt with 'MACMILLAN CANCER SUPPORT' printed on it, is sitting at a wooden table and talking to an elderly woman. The elderly woman has grey hair, wears glasses, a yellow scarf, and a grey patterned cardigan. They are in a room with colorful walls and various decorations. A green banner is in the top left corner.

**CYMORTH CANCER
MACMILLAN**

Cymorth Cancer Macmillan


Uchafbwyntiau 2025

Mae Hyrwyddwyr Cancer Macmillan Health Caafi yn cynnig cymorth
a chefnogaeth i bobl sy'n byw yng nghanol dinas Bryste.

Cipolwg ar 2025


£112 miliwn

Helpodd y Tîm Hawliau Lles ar ein Llinell Gymorth i nodi tua £112 miliwn mewn budd-daliadau lles posibl y gallai tua 13,200 o bobl yr effeithir arnynt gan ganser fod yn gymwys i'w cael.



£265.4 miliwn

Diolch i haelioni ein cefnogwyr, fe godon ni £265.4 miliwn, ein hincwm codi arian uchaf erioed.



un neu fwy o'n gwasanaethau gwybodaeth a chymorth, gan gynnwys ein Llinell Gymorth, canolfannau gwybodaeth, Cymuned Ar-lein, gwefan, cymorth e-bost a gwasanaeth Cyfeillion.



50,000 o Foreau Coffi

Cynhaliodd ein cefnogwyr anhygoel bron i 50,000 o Foreau Coffi, gan godi bron i £17 miliwn.



476,000 wedi'u cefnogi

Fe wnaethon ni gefnogi bron i hanner miliwn o bobl sy'n byw gyda chanser drwy



31,000 o wirfoddolwyr

Rhoddodd ein cymuned wych o fwy na 31,000 o wirfoddolwyr fwy na 103,000 o oriau o'u hamser.

11,000 o weithwyr proffesiynol

Fe wnaethon ni dyfu ein cymuned o weithwyr proffesiynol Macmillan i

fwy na 11,000 o arbenigwyr cancer ledled y Deyrnas Unedig.



£15 miliwn

Fe wnaeth mwy na 29,000 o Heicwyr Hynod ein helpu i godi bron i £15 miliwn.




Sut wnaethom gasglu ein hincwm

Dim ond diolch i'r rhai sy'n ein cefnogi y mae ein cenhadaeth i wneud beth bynnag sydd ei angen i helpu pobl sy'n byw gyda chanser yn bosibl.

99%

o'n cyfanswm incwm wedi dod o'r cannoedd o filoedd o bobl ledled y Deyrnas Unedig a roddodd arian i gefnogi'r gwaith hanfodol rydym yn ei wneud ar gyfer pobl sy'n byw gyda chanser yn y Deyrnas Unedig.



£129.3 miliwn

Wedi ei godi drwy roddion mewn ewyllysiau gan 3,076 o gefnogwyr a ddewisodd yn garedig adael rhodd i Macmillan – blwyddyn arall a dorrodd y record ar gyfer incwm etifeddiaeth.

£4 miliwn

wedi ei godi drwy ein partneriaeth â Greene King yn 2025, gan arwain at gyrraedd carreg filltir anhygoel o £25 miliwn ers i'n partneriaeth ddechrau yn 2012.

£268.4 miliwn

wedi ei godi yn 2025 gan ein cefnogwyr gwych, incwm o weithgareddau elusennol, incwm grantiau ac incwm buddsoddi.



£22.4 miliwn

Y rhodd waddol fwyaf yn hanes Macmillan, drwy haelioni Mr George Gerald Kingsland Smith, i fynegi ei werthfawrogiad am y caredigrwydd a'r gefnogaeth a dderbyniodd ei fam gan nyrsys Macmillan ddiwedd y 1990au.



£16.9 miliwn

wedi ei gasglu drwy bron i 50,000 o Foreau Coffi a gynhaliwyd ledled y Deyrnas Unedig yn 2025 wrth ddathlu pen-blwydd y boreau coffi yn 35 oed.

Sut wnaethon ni wario ein harian

Yn 2025, fe wnaethon ni barhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau cymorth hanfodol heddiw wrth helpu llunio dyfodol gofal cancer ledled y Deyrnas Unedig.

£145.2 miliwn



wedi'i dalu i helpu pobl â chanser.

£13.1 miliwn

wedi'i wario ar gefnogi ein cymuned o weithwyr proffesiynol Macmillan i ddarparu gofal cancer arfer gorau trwy grantiau datblygu proffesiynol, cynadledau rhanbarthol a chyrtsiau dysgu a datblygu.



£3.5 miliwn

wedi ei ymrwymo'n llwyr drwy ein cronfa beilot buddsoddi effaith, gan gefnogi atebion gofal cancer arloesol.

£100.1 miliwn



wedi'i wario ar ddarparu cefnogaeth i bobl sy'n byw gyda chanser ac yr effeithir arnynt gan ganser, gan gynnwys trwy ein Grantiau, Llinell Gymorth a Chanolfannau Gwybodaeth a Chymorth.

£42.1 miliwn

wedi ei ymrwymo i dri phrosiect cymdogaeth newydd a 6 gwasanaeth gofal diwedd oes newydd dros y 3-6 blynedd nesaf, er mwyn darparu cefnogaeth ragweithiol i bobl yn nes at adref.



Sut wnaethon ni gefnogi pobl â chanser yn 2025

Mae nifer y bobl sy'n byw gyda chanser yn y Deyrnas Unedig yn cynyddu, ac mae gormod o bobl yn dal i wynebu profiadau a chanlyniadau anghyfartal. Mae gwasanaethau Macmillan yno i bobl sy'n byw gyda chanser bob cam o'r ffordd-trwy'r diagnosis, y driniaeth a thu hwnt.



Cyfeillion Macmillan

Darparwyd mwy na 17,000 o sesiynau o gefnogaeth emosiynol i tua 3,800 o bobl sy'n byw gyda chanser ledled y Deyrnas Unedig, gan helpu pobl i deimlo'n llai unig trwy sgysiau un-i-un rheolaidd.

Treial grantiau ariannol newydd yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr

Yn 2025, fe wnaethom lansio cynllun peilot grantiau newydd, gan ddarparu grantiau untro o £350 i dros 500 o bobl sy'n byw gyda chanser yn un o'r ardaloedd daearyddol mwyaf difreintiedig yn Lloegr. Yn dilyn ei lwyddiant, byddwn yn ehangu'r cynnig grant hwn i fwy o ardaloedd ledled y Deyrnas Unedig yn 2026.



Llinell Gymorth Macmillan

Yn 2025, cefnogodd ein timau Llinell Gymorth 90,000 o bobl yr effeithiwyd arnynt gan ganser drwy ffôn, e-bost, a sgwrs we, gan gynnig arweiniad ymarferol, emosiynol ac ariannol pan oedd ei angen fwyaf ar bobl.

Cymuned Ar-lein

Yn 2025, cafodd bron i 350,000 o bobl â chanser gymorth drwy'r Gymuned Ar-lein, cynnydd o 22% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

“ Mae'r Gymuned Ar-lein wedi bod yn achubiaeth i mi. Mae clywed gan bobl sy'n mynd trwy brofiadau tebyg, wedi'u rhannu gyda gonestrwydd a hiwmor, wedi fy helpu i wneud synnwyr o fy nghanser y prostad a'i sgil-effeithiau. ”

Steve, defnyddiwr gwasanaeth Cymuned Ar-lein



Sut wnaethon ni gefnogi pobl â chanser yn 2025

Gwasanaeth cymorth WhatsApp newydd

Yn 2025, fe wnaethon ni dreialu cymorth drwy WhatsApp i helpu pobl i gael mynediad at gymorth emosiynol mewn ffyrdd sy'n gweithio iddyn nhw. Dangosodd adborth cynnar fod y gwasanaeth wedi helpu pobl i deimlo eu bod yn cael mwy o gefnogaeth ac yn gallu trafod effaith emosiynol canser.



Platform Asesiadau Anghenion Holistaidd Electronig

Yn 2025, cwblhawyd y 500,000fed cynllun gofal trwy blatfform Asesiadau Anghenion Holistaidd electronig Macmillan, gan helpu sicrhau bod mwy o bobl yn derbyn gofal personol wedi'i deilwra i'w hanghenion a'u hamgylchiadau unigol.



Gwybodaeth gyffredinol ar iechyd

Cafodd tudalennau gwe gwybodaeth a chymorth canser Macmillan eu gweld fwy na 12 miliwn o weithiau yn 2025.

“Er mwyn helpu sicrhau bod gwybodaeth Macmillan yn gywir, yn hawdd ei deall ac yn adlewyrchu arfer cyfredol, rydym yn cynnwys gweithwyr proffesiynol arbenigol yn ogystal â phobl sydd â phrofiad personol.”

**Sue Green, Nyrs Datblygu
Gwybodaeth Canser**



Effaith ein gwasanaethau

Yn 2025, cefnogodd Macmillan 476,000 o bobl sy'n byw gyda chanser trwy un neu fwy o'n gwasanaethau gwybodaeth a chymorth. Rhoddodd mwy nag 85% o'r bobl a gafodd gefnogaeth gan Macmillan sgôr gadarnhaol iawn i ni, gyda 70% yn rhoi sgôr o 10 allan o 10 i'n cefnogaeth.

Teimlai Carrol ar goll ar ôl cael diagnosis o ganser y fron negyddol triphlyg ym mis Rhagfyr 2024.

“Dyna pryd y troais at Linell Gymorth Macmillan. Rydw i nawr wedi fy argyhoeddi'n llwyr. Roedd yn wych a gallwch chi fod yn wirioneddol onest gyda nhw. Un cyngor y byddwn i'n ei roi i unrhyw un sy'n mynd trwy ganser yw ceisio cefnogaeth yn gynnar. Ffoniwch Linell Gymorth Macmillan cyn gynted ag y cewch ddiagnosis. Rydw i hefyd yn hoff iawn o'r wefan.”



Cafodd Doug gefnogaeth trwy wasanaeth Cyfeillion Macmillan ar ôl cael diagnosis o ganser yr arennau na ellir ei wella.

“Gallu siarad amdano, mae'n gwneud lles i mi. Dw i'n meddwl i mi godi taflen a gweld y gwasanaeth Ffrindiau yma. Dyma fi'n meddwl, mae hyn yn swnio'n berffaith i mi. Mae'n rhoi'r amgylchedd hwnnw i chi siarad yn agored. Roedd yna adegau pan wnes i grïo ar y galwadau hynny hefyd. Mae'n bwnc emosiynol iawn.”



Roedd Mohammad yn byw bywyd prysur gyda'i deulu ifanc pan gafodd ddiagnosis o ganser y coluddyn yn 2021, ar ôl misoedd o gamddiagnosis.

“Pan oeddwn i'n mynd trwy driniaeth ac yn treulio cyfnodau hir yn yr ysbyty, roedd Llinell Gymorth Macmillan mor garedig, heb fy rhuthro o gwbl. Pan ddes i adref, roeddwn i'n teimlo ar goll ac ddim yn adnabod y person yn y drych, ond fe helpodd Macmillan fi i alaru am fy nghyn-hunan ac ail-lunio pwy ydw i heddiw.”



Adeiladu gweithlu cancer cryfach

Mae gweithwyr proffesiynol Macmillan yn chwarae rhan hanfodol wrth helpu pobl sy'n byw gyda chanser i dderbyn gofal mwy personol, tosturiol a holistaidd. Gan weithio ar draws ysbytai, gwasanaethau cymunedol a gofal sylfaenol, maent yn cefnogi pobl trwy ddiagnosis, triniaeth a thu hwnt.

Yn 2025, fe wnaethon ni barhau tyfu ein cymuned broffesiynol Macmillan, gan helpu ymestyn cefnogaeth i fwy o gymunedau a lleoliadau gofal ledled y Deyrnas Unedig.



Tyfu cymuned broffesiynol Macmillan

- 11,100+ o weithwyr proffesiynol Macmillan ledled y Deyrnas Unedig
- Ymunodd dros 1,300 o weithwyr proffesiynol newydd drwy ein model mabwysiadu wedi'i ddiweddarau yn 2025
- 4,000+ o weithwyr proffesiynol Boots Macmillan yn cefnogi pobl mewn cymunedau lleol

"Mae bod yn rhan o gymuned Macmillan wedi cryfhau ein gallu i gefnogi cleifion y tu hwnt i driniaeth, gan roi mynediad inni at addysg, adnoddau a gwybodaeth ddibynadwy y gallwn ei rhannu."

Tim Treialon Oncoleg Ymchwil Clinigol yng Nghanolfan Oncoleg Caint, Ysbyty Maidstone

Sbarduno chwyldro mewn gofal cancer

**Mynychodd 130+ o bobl
ddigwyddiadau ymgysylltu gofal
cancer dan arweiniad Macmillan
yn 2025**



**£23.2 miliwn
wedi'i ymrwymo
i brosiectau
trawsnewid
cymdogaethau
lleol ledled y
Deyrnas Unedig**



**£1.2 miliwn
wedi'i fuddsoddi
mewn pedwar
arloesedd gofal
cancer arloesol**



Er ein bod yn parhau i ddarparu cefnogaeth hanfodol i bobl yr effeithir arnynt gan ganser ar hyn o bryd, rydym hefyd yn gweithio i drawsnewid gofal cancer y dyfodol hefyd – i'w wneud yn decach i bawb.

Yn 2025, fe wnaethon ni weithio gyda llywodraethau, sefydliadau cymunedol, partneriaid gofal iechyd ac arloeswyr i helpu gwella gofal cancer, lleihau anghydraddoldebau a dod â chymorth yn agosach at adref.

Helpu llunio polisi cancer

Fe wnaethon ni helpu i sicrhau bod lleisiau pobl sy'n byw gyda chanser yn cael eu hadlewyrchu yn natblygiad Cynllun Cancer Cenedlaethol newydd Lloegr trwy ddigwyddiadau ymgysylltu cymunedol a gynhaliwyd ledled y Deyrnas Unedig.

Dod â chefnogaeth yn agosach at adref

Fe wnaethon ni barhau i fuddsoddi mewn gofal sydd wedi'i gynllunio a'i ddarparu o amgylch ardal leol. Dod â phartneriaid iechyd, gofal cymdeithasol a chymunedol ynghyd fel y gall pobl gael mynediad at gymorth yn agos at adref ac yn gynharach.

Buddsoddi yn nyfodol gofal cancer

Gyda chefnogaeth gan ein Clwb Cyllidwyr Frontier, fe wnaethom fuddsoddi mewn datblygiadau gofal cancer arloesol gan helpu gwella diagnosis, triniaeth a chymorth personol.

Cefnogi cymunedau ledled y Deyrnas Unedig

Yng Ngogledd Iwerddon, fe wnaethon ni gydweithio â'r Adran Iechyd i lansio Cynllun Grant Elusennau Canser newydd gwerth £2 filiwn i gryfhau cefnogaeth yn y gymuned, gyda chyllid wedi'i neilltuo i brosiectau cymunedol yn 2026.

Yng Nghymru, fe wnaethon ni ddod â lleisiau o bob rhan o'r system gofal iechyd ynghyd i ddeall yn well beth sydd angen newid a ble gallai syniadau arloesol wneud y gwahaniaeth mwyaf i bobl â chanser.


Yn yr Alban, mae bron pob rhanbarth bellach wedi'i wasanaethu gan wasanaeth Gwella'r Daith Canser Lleol a ariennir gan Macmillan mewn partneriaeth â Llywodraeth yr Alban i sicrhau bod pobl yn derbyn gofal a chymorth wedi'u teilwra i'w hanghenion personol, y tu hwnt i'w triniaeth glinigol.

**" Diolch i chi am roi'r
gwasanaethau sydd wedi
fy helpu ar waith - fyddwn
i ddim wedi gwybod ble i
ddechrau na phwy i gysylltu
â nhw. Nawr rydw i'n gallu
canolbwyntio ar fy iechyd
yn lle poeni. "**

Defnyddiwr gwasanaeth Gwella Taith Canser

Sut mae pobl yn ein cefnogi ni

Diolch i haelioni anhygoel ein cefnogwyr, roedd 2025 yn flwyddyn a dorrodd record i Macmillan. O ddigwyddiadau codi arian a rhoddion mewn ewyllysiau i bartneriaethau corfforaethol a gwirfoddoli, daeth cannoedd o filoedd o bobl ynghyd i'n helpu i gefnogi pobl sy'n byw gyda chanser ledled y Deyrnas Unedig.



Codwyd £265.4 miliwn yn 2025

Ein hincwm codi arian uchaf erioed

Cododd bron i 650,000

o bobl arian neu roi i Macmillan yn 2025



3,076 o gymynroddion o roddion mewn ewyllysiau, cyfanswm o £129.3 miliwn

Blwyddyn arall sy'n torri record ar gyfer incwm etifeddiaeth

£22.4 miliwn

Ein rhodd etifeddiaeth fwyaf erioed a gofnodwyd, a adawyd yn hael i ni gan Mr George Gerald Kingsland Smith



Dathliad 35 Boreau Coffi Macmillan gyda Wes Streeting, Cyn Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Bore Coffi yn troi'n 35

Yn 2025, dathlodd ein Bore Coffi blaenllaw ei ben-blwydd yn 35 oed, gyda chefnogwyr yn cynnal bron i 50,000 o Foreau Coffi ac yn codi bron i £17 miliwn i bobl sy'n byw gyda chanser.

5

0

0

0

0



Nicole, Karen, a Jacqueline yn gwirfoddoli yn Northumberland Coast Mighty Hike.



Mewn partneriaeth â talkSPORT, Toolstation a Greene King, fe wnaethom godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd dynion yn siarad am eu hiechyd.

Blwyddyn orau erioed i'r Heicwyr Hynod

Cymerodd mwy na 29,000 o bobl ran mewn Heiciau Hynod yn 2025 – ein blwyddyn fwyaf hyd yma ar gyfer y gyfres o ddigwyddiadau her – gan godi bron i £15 miliwn.

"Ar ôl cymryd rhan mewn tair Heic Hynod o'r blaen, gwelsom â'n llygaid ein hunain y gwahaniaeth y mae gwirfoddolwyr yn ei wneud – mae'r cymorth a'r gefnogaeth yn anhygoel. Fe wnaeth hyn fy ysbrydoli i wirfoddoli yn Northumberland Coast Mighty Hike yn 2025 – fe wnaethon ni gymeradwyo, gweiddi a dawnsio drwy'r dydd ac alla i ddim aros i wneud y cyfan eto eleni."

Jacqueline

Cefnogi Macmillan drwy bartneriaethau

Rhoddodd ein partneriaid corfforaethol, gan gynnwys Greene King, Boots, Cardfactory, Toolstation a mwy, fwy na £15 miliwn yn 2025, gan ein helpu i barhau i ddarparu cefnogaeth hanfodol i bobl sy'n byw gyda chanser a'u teuluoedd.

Nodyn gan ein Prif Weithredwr, Gemma Peters

Roedd 2025 yn flwyddyn o gynnydd ystyrlon i Gymorth Cancer Macmillan. Blwyddyn lle gwnaethom gryfhau cefnogaeth heddiw wrth osod y sylfaen ar gyfer trawsnewidiad yfory.

Ar draws y Deyrnas Unedig, mae mwy o bobl nag erioed yn byw gyda chanser. Y tu ôl i bob ystadegyn mae person yn llywio triniaeth, cyllid, gwaith, bywyd teuluol ac ansicrwydd ynghylch beth sy'n dod nesaf. Yn 2025, trodd bron i hanner miliwn o bobl â chanser at Macmillan am gefnogaeth ymarferol, emosiynol ac ariannol. Roedden ni yno drwy ein gwasanaethau, ein partneriaethau cymunedol a'n rhwydwaith cynyddol o weithwyr proffesiynol Macmillan sy'n darparu gofal tosturiol sy'n canolbwyntio ar y claf.

Dyma oedd y flwyddyn lawn gyntaf o weithredu ein strategaeth newydd. Drwy gydol y flwyddyn, fe wnaethom brofi dulliau newydd, cryfhau partneriaethau cymunedol a helpu llunio cyfeiriad gofal cancer yn y dyfodol ledled y Deyrnas Unedig. Fe wnaethon ni hefyd ddwysáu ein perthnasoedd â llywodraethau ar draws y pedair gwlad a chwarae rhan ddylanwadol wrth lunio polisi cancer, gan gynnwys Cynllun Cancer Lloegr.

Roedd 2025 hefyd yn flwyddyn o gefnogaeth nodedig. Diolch i'n cefnogwyr, fe godon ni £265.3 miliwn – yr incwm codi arian mwyaf yn ein hanes. Mae cyflawni hyn mewn hinsawdd economaidd heriol yn brofiad gostyngedig ac yn adlewyrchu'r ymrwymiad anhygoel y mae pobl yn parhau i'w ddangos tuag at wella bywydau pobl sy'n byw gyda chanser.

Oherwydd y sylfeini a osodwyd yn 2025, rydym yn mynd i mewn i 2026 gyda hyder ac uchelgais. Byddwn yn parhau i weithio i wneud gofal cancer yn fwy personol, cyfartal a hygyrch, gan gyrraedd mwy o bobl drwy ein gwasanaethau a'n partneriaethau.

Ynghyd â'n cefnogwyr, partneriaid, gweithwyr proffesiynol a gwirfoddolwyr, nid yn unig ein bod yn ymateb i anghenion heddiw – rydym yn helpu llunio dyfodol gofal cancer ledled y Deyrnas Unedig.

Gemma Peters

Eisiau cael mwy o wybodaeth?

Archwiliwch ein Hadroddiad Blynyddol llawn am fwy o fanylion am ein gwaith, ein heffaith a'r gwahaniaeth rydym wedi'i wneud gyda'n gilydd.

Ewch i macmillan.org.uk/annualreport



Nodyn gan ein Prif Weithredwr,
Gemma Peters

Ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Yn 2026, byddwn yn parhau i ddarparu cefnogaeth hanfodol i bobl sy'n byw gyda chanser heddiw, gan adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn 2025 i helpu llunio system gofal cancer sy'n gweithio'n well i bawb.



1. Cyrraedd pawb

Byddwn yn ehangu ac yn tyfu ein cymuned o weithwyr proffesiynol Macmillan, gan sicrhau bod mwy o bobl yn profi gofal gwell a chynyddu atgyfeiriadau i'n gwasanaethau.

Byddwn yn gwneud ein gwasanaethau'n fwy cysylltiedig, yn haws i'w llywio ac yn fwy effeithlon fel y gallwn wella'r gefnogaeth i'r rhai sydd ein hangen fwyaf a darparu cefnogaeth fwy penodol ar gyfer cymunedau sydd wedi'u hymylu.

Erbyn 2030, ein huchelgaïs yw:

- Mwy na 825,000 o bobl sy'n byw gyda chanser yn defnyddio gwasanaethau Macmillan bob blwyddyn.
- 40,000 o weithwyr proffesiynol Macmillan yn helpu gwella gofal a phrofiadau cancer ledled y Deyrnas Unedig.



3. Adeiladu cefnogaeth y cyhoedd

Byddwn yn cynyddu ein hincwm drwy gryfhau perthnasoedd â chefnogwyr presennol ac ysbrydoli pobl newydd i gymryd rhan.

Byddwn yn lansio strategaeth farchnata ac ymgyrch brand newydd i helpu mwy o bobl i ddeall pwy ydym ni, pam rydym

ni'n bodoli a sut y gallwn ni eu cefnogi.

Erbyn 2030, ein huchelgaïs yw:

- Cynyddu ein hincwm codi arian i o leiaf £280 miliwn y flwyddyn



2. Sbarduno chwyldro mewn gofal cancer

Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â grwpiau cymunedol, systemau iechyd a gofal a sefydliadau eraill i helpu i ddod â gofal mwy personol a chyfannol yn nes at adref.

Byddwn yn cyflwyno ein Model Arweinydd Rhanbarthol newydd ar gyfer cyngor a chymorth lles ariannol yn y gymuned, gan gyrraedd 75,000 o bobl yr effeithir arnynt gan ganser ledled y Deyrnas Unedig yn 2026.

Erbyn 2030, ein huchelgaïs yw:

- Cyrraedd 300,000 o bobl gyda chefnogaeth leol drwy bartneriaethau cymunedol.
- Dangos newid ar raddfa fawr drwy fuddsoddi mewn prosiectau cymdogaeth ledled y Deyrnas Unedig.



4. Sut yr ydym yn gweithio

Byddwn yn parhau i adeiladu diwylliant cynhwysol, perfformiad uchel lle gall pawb wneud eu gwaith gorau dros bobl sy'n byw gyda chanser.

Byddwn yn sicrhau bod gan ein cydweithwyr a'n partneriaid y sgiliau a'r offer cywir i wneud eu gwaith gorau i bobl sy'n byw gyda chanser.

Cael gwybod mwy

Dysgwch fwy am waith Macmillan, sut rydym yn cefnogi pobl sy'n byw gyda chanser a sut allwch chi gymryd rhan.



Mynnwch gefnogaeth

Gwybodaeth a chefnogaeth ar gyfer pobl sy'n byw gyda chanser, eu teuluoedd, ffrindiau a gofalgwyr.

macmillan.org.uk/getsupport



Gwirfoddoli i Macmillan

Boed yn funudau neu fisoedd, oriau neu ddyddiau, mae'r amser rydych chi'n ei roi yn golygu nad yw rhywun sydd wedi'i effeithio gan ganser yn ei wynebu ar ei ben ei hun.

macmillan.org.uk/volunteering



Cymuned Ar-lein

Siaradwch ag eraill sydd wedi cael eu heffeithio gan ganser, rhannwch brofiadau, a gofynnwch eich cwestiynau i gynghorwyr Macmillan.

macmillan.org.uk/community



Rhoi i Macmillan

Gadewch rodd yn eich ewyllys neu gwnewch gyfraniad i Macmillan i helpu gwneud gofal canser yn deg i bawb.

macmillan.org.uk/donate



Codi arian i Macmillan

O Foreau Coffi i Heiciau Hynod, darganfyddwch sut allwch chi gefnogi pobl sy'n byw gyda chanser.

macmillan.org.uk/fundraise



Dod yn bartner corfforaethol

Partnerwch â Macmillan i dyfu eich brand a helpu i wneud gwahaniaeth i bobl sy'n byw gyda chanser ledled y Deyrnas Unedig.

macmillan.org.uk/corporatepartners

Mae Cymorth Cancer Macmillan wedi treulio mwy na 100 mlynedd yn helpu pobl sy'n byw gyda chanser. Gwyddom y gall cancer amharu ar eich bywyd cyfan. A gall gael ei waethygu oherwydd pwy ydych chi a ble rydych chi'n byw. Ond rydyn ni yma i newid hynny. Mae nifer y bobl sy'n cael diagnosis o ganser yn cynyddu, ac mae angen y cymorth gorau ar bob un ohonynt i ddiwallu eu hanghenion unigryw. Dyna pam y byddwn yn gwneud beth bynnag sydd ei angen i helpu pawb sy'n byw gyda chanser ledled y Deyrnas Unedig i gael y cymorth sydd ei angen arnynt ar hyn o bryd a thrawsnewid gofal cancer i bawb a fydd yn cael diagnosis yn y dyfodol.

I gyfrannu, gwirfoddoli, codi arian neu ymgychu gyda ni,
ffoniwch 0300 1000 200 neu ewch i macmillan.org.uk

Cymorth Cancer Macmillan, elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (261017), yr Alban (SC039907) ac Ynys Manaw (604). Hefyd yn gweithredu yng Ngogledd Iwerddon. Cwmni cyfyngedig trwy warant, wedi ei gofrestru yng Nghymru a Lloegr, rhif cwmni 2400969. Rhif cwmni Ynys Manaw 4694F. Swyddfa gofrestredig: Cymorth Cancer Macmillan, 3rd Floor, Bronze Building, The Forge, 105 Sumner Street, Llundain, SE1 9HZ. Rhif TAW: 668265007. MAC20342_OverviewWelsh

**CYMORTH CANCER
MACMILLAN**